


Wrth iddynt ddod yn fwy medrus

Neidio Dros Jade



Beth am 'Chwarae i Ddysgu'?

- Darllenwch y llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth' a chyfeiriwch at y gêm yn y stori
- Tynnwch linell â sialc o amgylch y plentyn talaf, gan labelu rhai rhannau o'i gorff
- Gofynnwch i'r plant amcangyfrif y pellter y byddant yn ei neidio mewn un naid, dwy naid, ac ati
- Mesurwch gyflawniadau'r plant gan ddefnyddio mesurau safonol ac ansafonol

Geiriau allweddol

- Rheolaeth, sgiliau cydsymud, cydbwysedd
- Neidio a glanio
- Neidio fel broga
- Amcangyfrif, rhagweld, mesur
- Camau bach iawn, camau enfawr, dwylo

Cyfleoedd i:

- neidio'n hyderus
- amcangyfrif, rhagweld a mesur
- adnabod ac enwi rhannau'r corff

Adnoddau

- Marcwyr dros dro, marcwyr traed
- Ffyn mesur, sialc
- Llyfr stori 'Y Parti ar y Traeth'

Cwestiynau

- Pa mor bell gallwch chi neidio?
- Pa mor bell gallwch chi neidio mewn camau bach iawn?
- Sawl naid byddai eu hangen arnoch i neidio dros ben siâp y plentyn talaf?

Diogelwch a threfn

Sicrhewch:

- bod yr arwyneb yn lân ac yn rhydd o rwystrau
- bod yr arwyneb neidio'n gallu esmwytho'r glanio, e.e. trwy ddefnyddio matiau gymnasteg neu borfa
- bod y plant yn plygu eu pengliniau wrth lanio gan lanio fel pe baent yn gwneud 'naid broga'

A allwch chi weld y plentyn?

- Yn neidio'n hyderus?
- Yn amcangyfrif, yn rhagweld ac yn mesur?
- Yn adnabod ac yn enwi rhannau'r corff?

gan amlaf

weithiau

- Gadewch i'r plentyn fesur ei naid yn gyntaf, cyn cymharu'r naid â siâp y plentyn talaf er mwyn amcangyfrif yn fwy cywir
- Gofynnwch i'r plentyn ymarfer neidio gan ddefnyddio'r Cardiau Sgiliau Technegol
- Trafodwch enwau rhannau'r corff a labelwch nhw

- Defnyddiwch fygydau i'r plant eu gwisgo wrth neidio
- Helpwch y plentyn i ganfod sawl naid y gallai fod arno'u hangen i neidio deirgwaith dros ben siâp y plentyn talaf. Trafodwch pam y gallai hynny gymryd mwy o neidiau na'r disgwyl
- Heriwch blentyn i neidio dros ben cyfanswm taldra pawb
- Gofynnwch i'r plant chwarae gêm mewn parau. Bydd un plentyn yn taflu bag ffa neu wrthrych ar y llawr. Rhaid i'r plentyn arall amcangyfrif sawl naid y bydd arno'u hangen i gyrraedd y marciwr hunnw

Cyfleoedd campus

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol: Datblygiad cymdeithasol – deall bod rheolau'n hanfodol mewn cymuned drefnus, dysgu cymryd eu tro, deall yr hyn sy'n deg ac yn annheg
- Datblygiad Mathemategol: Amcangyfrif maint mesur; mesur gan ddefnyddio mesurau safonol ac ansafonol